# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 29 Medi 2022 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 29 Medi 2022 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 6 Hydref 2022 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Y Cynghorydd Craig ab Iago
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

---

**PWNC – Gwerthu Rhydd-ddaliad, tir a ffurfiai ran o gyn safle Ysgol Cae Top**

---

**PENDERFYNIAD**

Argymhellir bod y Cyngor yn gwerthu'r rhydd-ddaliad i'r safle a amlinellir mewn coch ar y cynllun ar y cyd a thir preifat cyffiniol ar delerau ac amodau i'w penderfynu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Daniel Lewis<br>Uwch Syrfewr Stdau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 29.09.2022 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc :** Gwerthu Rhydd-ddaliad, tir a ffurfiai ran o gyn safle Ysgol Cae Top

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Argymhellir bod y Cyngor yn gwerthu'r rhydd-ddaliad i'r safle a amlinellir mewn coch ar y cynllun ar y cyd a thir preifat cyffiniol ar delerau ac amodau i'w penderfynu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Fel rhan o safle hen Ysgol Cae Top, mae’r tir a amlinellir yn goch yn weddill i anghenion y Cyngor.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Er mwyn sicrhau gwerth gorau am ei asedau yn unol ag adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, dull traddodiadol y Cyngor o waredu eiddo yw trwy hysbysebu ar y farchnad agored gan wahodd tendrau, er mwyn rhoi’r cyfle i unrhyw barti sydd â diddordeb i brynu neu brydlesu. Mae hyn yn sicrhau'r pris gorau yn ogystal â darparu tryloywder.

Yn yr achos yma, nid oes unrhyw hawliau mynediad at y tir, ac o ganlyniad mae gwerth tir y Cyngor ar ei ben ei hun, yn enwol. Mae perchennog tir cyffiniol wedi cysylltu â’r Cyngor gan ddatgan bwriad i werthu eu diddordeb tir trwy arwerthiant. Trwy werthu tir y Cyngor ar y cyd a'r tir cyffiniol fel rhan o safle ehangach sydd â mynediad uniongyrchol oddi ar briffordd gyhoeddus, bydd potensial y safle yn cael ei uchafu, gan sicrhau gwerth gorau am y safle.

Nid oes gan y Cyngor ddefnydd gweithredol ar gyfer yr eiddo, ac mae parhau i fonitro a chynnal a chadw’r safle yn ddefnydd gwastraffus o adnoddau.

Nid oes bwriad i waredu am lai na gwerth y farchnad.

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae'n ofynnol i sicrhau penderfyniad Aelod Cabinet er mwyn gwaredu eiddo am swm uwchlaw £25,000.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.


**Prif Swyddog Cyllid**

"Mae'r gweithrediad arfaethedig yn rhesymol ac yn debygol o uchafu budd y Cyngor pan yn gwaredu'r tir yma sy'n weddill i'w ofynion. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir"

**Swyddog Monitro**

"Mae'r hyn a argymhellir yn yr adroddiad yn cynnig datrysiad priodol i set o amgylchiadau eithaf penodol."

**Aelod/au Lleol -** Huw Wyn Jones – Dim gwrthwynebiad
Richard Medwyn Hughes – Dim sylwadau wedi eu derbyn




70 35 0 70 Meters

# Hen Ysgol Cae Top

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd